



CYNLLUNIAU MARCIO TAG

**CYMRAEG IAITH GYNTAF
UG/UWCH**

HAF 2013

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2013 TAG CYMRAEG IAITH GYNTAF. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad.

Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

CY3

Adran A

Cyfanswm o 40 marc

- (a) Rhoddir 2 farc am bob brawddeg sydd yn dangos ystyr a defnydd yn eglur a chywirdeb ieithyddol. Rhaid dangos ystyr yn eglur cyn ennill marciau.

1 neu 2 wall – colli ½ marc

Mwy na 2 wall – colli 1 marc

Ystyrir gwallau atalnodi, e.e. acen grom neu atalnod llawn, yn wallau. Hefyd pan gyflwynir dwy frawddeg yn lle un, ystyrir hyn yn un gwall.

gyda: angen defnyddio'r arddodiad yn gywir. Nid oes ffurf bersonol iddo ac ni ddylid ei osod ar ddiwedd brawddeg heb fod enw neu ragenw'n dilyn. Gellir defnyddio *gyda* wrth ei gplysu â pherson neu gasgliad o bobl, 'yng nghwmni'.

Es i *gyda* dad i wyllo'r gêm.

Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Pwy wyt ti'n siarad *gyda*?

Dim marciau oherwydd camddefnyddio'r arddodiad.

nad aeth: gellir defnyddio '*nad aeth*' er mwyn negyddu cymal enwol a chymal perthynol.

Gwn *nad aeth* Jac i'r ysgol ar y bws.

Hwn yw'r dyn *nad aeth* i fyw i'r dref.

Gellir dyfarnu 2 farc am yr atebion hyn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

y bu: gellir defnyddio *y bu* ar ddechrau amrywiol isgymalau yn ogystal ag mewn cymal perthynol lle nad yw'n cynrychioli goddrych neu wrthrych y ferf sy'n ei ddilyn:

Dyma'r dyn *y bu* sôn amdano.

Dyma'r ferch *y bu* ei thad yn rhedeg yn y ras.

Clywsom *y bu* tân yn y dref neithiwr.

Gellir dyfarnu 2 farc am yr atebion hyn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

gwelwyd: rhaid cyfleu'r ffurf amhersonol yn yr amser gorffennol yn gywir gan ddefnyddio 'gan' yn y frawddeg.

Dyma'r dyn y *gwelwyd* ei lun gan Siân yn y papur neithiwr.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Gwelwyd ddrama dda gan fyfyrwyr yn neuadd y dre neithiwr.
Dyfernir 1½ marc gan ei bod yn dangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall treiglo.

os: Defnyddir *os* i gyfleu sicrwydd am rywbeth, ond bod y sicrwydd hwnnw'n amodol, hynny yw yn dibynnu ar rywbeth arall, yn amod y mae'n bosibl ei gyflawni. Os oes amheuaeth, defnyddir 'pe'.

Fel rheol, daw berf yn union ar ôl y cysylltair, ac ni fydd yn treiglo.

Os caf y swydd, byddaf yn hapus.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Os y caf y swydd, byddaf yn hapus.
Dyfernir 1½ marc gan ei bod yn dangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall.

Mae modd defnyddio 'os' i bwysleisio rhyw ran arall o'r frawddeg heblaw'r ferf ac wedyn fe roir yr hyn sydd i'w bwysleisio yn union ar ôl 'os'.

Os dyna'r afon a welsoch, ei henw yw afon Twrch.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Gofynnodd os oeddem yn dod.
Dim marciau oherwydd ni ellir defnyddio os mewn gofyniad anuniongyrchol.

(5 x 2 = 10)

(b) Rhoddir 1 marc am bob gwall a gywirwyd ac 1 marc am bob esboniad cywir. Rhaid i'r cywiriad fod yn gywir cyn ennill marc. Disgwylir bod y disgyblion yn defnyddio termau cywir e.e. rhagenw, arddodiad, rhagenw perthynol, cysylltair, cymal.

(i) **na bydd** > na fydd: (*berf*) yn treiglo'n feddal ar ôl *negydd* na.

bod ni > **ein bod ni**: angen defnyddio'r *rhagenw blaen* (*person cyntaf lluosog*) 'ein'. Mae rhagenw ôl 'ni' yn dibynnu ar y rhagenw blaen.

(ii) **i'w** > **at ei**: defnyddio *arddodiad* anghywir, angen defnyddio'r arddodiad 'at' ar ôl y berfenw 'anfon'; anfonais at rywun.

fod dim > **nad oes/ na fydd/ na fyddai** angen defnyddio'r *negydd* 'nad' wrth *negyddu cymal* (*enwol*). Ni ddylid negyddu cymal drwy ddefnyddio 'dim'. Ni dderbynnir 'nad oedd' gan fod y frawddeg yn cyfeirio at y dyfodol.

(iii) **a welais > y gwelais:** angen defnyddio y *rhagenw perthynol* 'y'.

pan fyddwn > pan oeddwn : angen cyfleu'r *amser gorffennol* yma yn hytrach na'r presennol/ dyfodol gan fod y weithred wedi digwydd ddoe. Derbynnir hefyd 'pan gerddwn' / 'pan gerddais'.

(iv) **y bu > bu:** dilynir y *cysylltair* tra gan *ferf* (heb dreigladd) a hynny'n uniongyrchol, heb 'y' yn eu gwahanu. Rhaid cael y term 'cysylltair' neu 'berf'

y dref cyfagos > y dref gyfagos: ansoddair yn treiglo'n feddal ar ôl enw benywaidd unigol '*tref*'.

(v) **gwyddai > gŵyr/ mae e'n gwybod:** angen defnyddio *berf* terfyniad amser presennol/ dyfodol trydydd person unigol yma yn hytrach na berf amser amherffaith. Mae'r frawddeg yn cyfeirio at weithred yn y dyfodol. Gellir derbyn y cywiriad 'Gwyddai y byddai'n mwynhau...'

mewn cwmni > yng nghwmni: angen defnyddio *arddodiad* 'yn' yn hytrach na 'mewn'. (Bydd angen treigladd trwynol ar ôl yr arddodiad 'yn'.) Gellir derbyn 'gyda chwmni' fel cywiriad. ½ marc yn unig os na threiglir yn llaes yn dilyn 'gyda'.
½ marc am egluro'r cysyniad 'penodol / amhenodol ond heb ddefnyddio'r term 'arddodiad'.

(10 x 2 =20)

(c) Bydd **10** gwall yn y paragraff a rhoddir 1 marc am gywiro pob gwall. Os bydd gwall sillafu neu atalnodi yn y geiriau a ddefnyddir wrth gywiro yna collir ½ marc am bob gwall e.e.

ei ymwybyddiaeth: eu hymwybyddiaeth 1 marc
eu ymwybyddiaeth ½ marc

Bydd angen i'r ymgeiswyr ailysgrifennu'r paragraff a **thanlinellu'r** cywiriadau.

Dyma enghraifft sut y gellir cywiro'r paragraff (10 x 1=10)

Ar gais yr Awdurdod Lleol trefnir ymweliad **ag** ysgolion yn ystod yr wythnosau nesaf i hyrwyddo bwyta'n iach ymysg disgyblion CA3. Mae'r ymweliad sy'n **rhan** o Gynllun y Llywodraeth yn amlygu'r ymrwymiad sydd **gennym** fel awdurdod i godi **ymwybyddiaeth/ eu hymwybyddiaeth/ ein hymwybyddiaeth/ eich ymwybyddiaeth** o gadw'n iach. Cynhelir yn ystod yr ymweliad **weithgareddau** a **chaiff** y disgyblion eu cyflwyno'n raddol i'r cysyniad **bod/fod** bwyd yn hanfod sylfaenol bywyd a bod angen **amrywiaeth** o fwydydd/ **amrywiol** fwydydd arnom i gadw'n iach. Gobeithio y byddwch yn **achub y cyfle/ dal ar y cyfle/ manteisio ar y cyfle/ croesawu'r cyfle/ cymryd y cyfle** i dderbyn y gwahoddiad.

Gellir derbyn y cywiriad canlynol:
Yn ystod yr ymweliad cynhelir gweithgareddau...

Adran B

Meini Prawf Cwestiwn penodol

Wrth ateb y naill gwestiwn a'r llall disgwylir bod yr ymgeiswyr yn:

- cyfeirio'n benodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau perthnasol
- saernïo traethawd ac yn dewis a dethol y perthnasol
- ymdrin â chreffft/ arddull y beirdd, ei saernïo o fewn y drafodaeth gan gyfeirio at y gynghanedd lle bo angen.

Dyfarnu marciau:

- rhaid ystyried ansawdd y drafodaeth wrth ddyfarnu marciau
- os na roddir sylw i arddull o gwbl dylid gostwng y marciau un radd
- pe bai ymgeisydd yn trafod un gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 10
- pe bai ymgeisydd yn trafod dwy gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 20
- rhaid i farc iaith AA3 fod o fewn gradd i farc y cynnwys
- dylid ystyried 3 phwynt cyntaf meini prawf AA3 yn ogystal â'r ddau sy'n ymwneud â chywirdeb iaith.

Cwestiwn (a)

*Mae nifer o feirdd y buoch yn astudio eu cerddi yn ymdrin â thema **marwolaeth**. Cyfeiriwch at y cerddi 'Geneth Ifanc', 'Dychwelyd' ac 'Ysgerbwdd Milwr' gan **gymharu** ymateb y beirdd i'r thema. Dylech gyfeirio at **arddull** y beirdd.*

Sylwadau cymharol posibl:

Marwolaeth: thema sy'n berthnasol ymhob oes, thema oesol yn y traddodiad barddol ond hefyd thema gyfoes. Mae'r elfen gymharol yn rhan hanfodol o ofynion y cwestiwn.

Bydd modd cyfeirio bod gan Waldo Williams, yn wahanol i T. H. Parry-Williams yn ei ymdriniaeth o'r thema, ffydd grefyddol, gadarn. Mae marwolaeth yr eneth ifanc wedi cael effaith ar Waldo ac wedi ei ysbrydoli i adnabod cymdeithas arbennig a gweld yn honno obaith dynoliaeth. Yn hyn o beth mae 'Geneth Ifanc' yn gerdd gadarnhaol. Croesawu marwolaeth wna T. H. Parry-Williams gan fod y llonyddwch terfynol yn apelio ato. Pwysleisia'r cadarnhaol sef bod yna dawelwch tangnefeddus wedi marwolaeth. Ni allwn ddylanwadu ar y byd ac nid yw bywyd yn gadael ei ôl wedi marwolaeth. Yn wahanol i T. H. Parry-Williams, mae gan bawb gyfraniad pwysig i'w wneud mewn bywyd yn ôl Waldo Williams ac fel yr 'eneth ifanc' sydd wedi marw'n ifanc mae ei bywyd wedi gadael ei ôl.

Mae Gerallt Lloyd Owen, yn wahanol i T. H. Parry-Williams sy'n myfyrio ar farwolaeth a marwoldeb, yn gweld pwrpas gwleidyddol i farwolaeth a bod marwolaeth yn esgor ar rywbeth newydd gan mai'r gred bod rhaid brwydro i oroesi sydd wrth wraidd canu'r bardd. Cafodd ei ddenu at yr 'Ysgerbwdd Milwr' am ei fod yn gweld ynddo genedlaetholwr yn ymladd i farwolaeth dros hawliau ei bobl. Deisyfa weld ei aberth yn ysbrydoliaeth i ni heddiw i frwydro i wynebu'r dyfodol.

Dylent gyfeirio at ddefnydd y beirdd o fesurau ac arddull.

Geneth Ifanc

- ymweld ag Amgueddfa Avebury yn Wiltshire lle gwelodd y bardd ysgerbwd merch ifanc mewn gwydr yn hanu o ddyddiad 2,500CC
- myfyrdod, ac o weld ysgerbwd y ferch mae'r bardd yn cael ei atgoffa am ei chwaer a fu farw'n ifanc, yn ddeuddeg oed; pwysleisia iddo golli ei chwaer a hithau ynghanol hwyl bywyd
- 'Deuddeg tro yn y Croeso Mai' a gafodd y ferch cyn i'r 'cydymaith tywyll', sef marwolaeth fynd â hi ymaith
- pwysleisia'r bardd y distawrwydd ar ôl marwolaeth y ferch
- dychmygai weld yn y cyfnod, wrth ail-greu ei bywyd, bobl heddychlon yn trin y tir a dyma ddiddordeb y bardd yn ei chynefin
- gosod ei fys ar symlrwydd cynhenid bywyd, byd natur yn hael a'r tir yn rhoi gobaith
- cawn bwysleisio gwerth heddychiaeth a'i gred mewn brawdgarwch wrth iddo ddarlunio cymdeithas waraidd, amaethyddol gyntefig
- ceir sicrwydd am nefoedd yn y gerdd hon ac mae'r bardd yn myfyrio ar ddirgelwch bywyd
- mewn ymateb i argyfwng cymdeithasol trodd Waldo at yr 'eneth ifanc' a gweld ynddi'r egwyddor hanfodol oedd ar gymdeithas ei hangen i fodoli sef brawdoliaeth
- yn hyn o beth dyma gerdd gadarnhaol, gwêl fywyd merch yn yr ysgerbwd marw, marwolaeth wedi cael effaith arno
- mesur cerdd rydd, penillion 4 llinell yn defnyddio lledodl, defnyddio trosiadau, berfenwau e.e. 'prynu' fel petai'r tir yn ildio ei thrysorau i'r bobl, ansoddeiriau cymharol, personoli marwolaeth, delwedd y tŷ, cynildeb

Ysgerbwd Milwr

- defnyddia'r bardd ei ddychymyg wrth ddisgrifio ysgerbwd milwr mewn haen o graig, aiff y bardd yn ôl ganrifoedd i hanes ei genedl ac edmyga ddewrder y milwr a safodd dros ei genedl
- disgrifia ei farwolaeth ar faes y gad a deisyfa weld yr ysgerbwd hwn yn ysbrydoliaeth i ni heddiw frwydro i sicrhau rhyddid i'n cenedl
- myfyria ar y frwydr y bu'r milwr ynddi cyn troi ei sylw at y milwr ei hun gan ramantu am ei gefndir
- edmyga aberth y milwr ond nid ysgerbwd yw bellach ond symbol o'r genedl, aberth o bosibl yn enw cyfiawnder
- awgrymir bod y milwr wedi brwydro dros ei genedl, ac mae'r bardd yn rhag-weld bod y genedl honno, cenedl anfodlon, yn paratoi at frwydr arall ond nad yw hi eto'n barod ar gyfer y frwydr honno
- ceir deuoliaeth yn yr hyn a wêl y bardd yn y graig, mae marwolaeth y milwr wedi esgor ar rywbeth newydd a drwy'r ysgerbwd gwêl obaith i ni gael adfywiad fel cenedl - dyma weledigaeth y bardd
- fel yn holl gerddi'r bardd, mae yma ymwybyddiaeth gref na fyddai cenedl y Cymry wedi goroesi ac na fyddant yn goroesi heb frwydr
- symbol y baban mewn croth, cymysgu synhwyrau, 'griddfan hanes' a 'llun ei waedd ar y llonyddwch', defnydd o ferfau pwerus
- y bardd felly yn credu fod pwrpas i farwolaeth yng nghyd-destun gwleidyddiaeth gan mai'r gred bod rhaid brwydro i oroesi sydd wrth wraidd canu'r bardd

Dychwelyd

- myfyrdod ar farwolaeth a marwoldeb
- ymwneud â bodolaeth dyn a hwnnw heb ffydd ym mywyd tragwyddol y Cristion
- ymgais gan agnostig ansicr i ddadansoddi'r byd y tu hwnt i farwolaeth; dim sôn am Dduw a'r ffydd Gristnogol
- ochri at ddamcaniaeth wyddonol yn hytrach na chrefyddol
- wythawd yn sôn am yr hil ddynol yn gyffredinol ac na all dim a wnawn ddylanwadu ar y bydysawd
- yn y chwechawd pwysleisir mai '*crych dros dro*' a '*chysgod craith*' yw bywyd dyn
- pwysleisir pa mor fyr a dibwys yw ein bywydau trwy ein cymharu â'r cosmos mewn cyfres o gyferbyniadau
- sonia am yr hyn a ddigwydd yn dilyn bywyd, '*llithro i'r llonyddwch mawr yn ôl*'
- pendertrwydd a chynildeb y cwpled clo – fel petai'n croesawu marwolaeth gan fod y llonyddwch terfynol yn apelio ato, hyn yn arwyddocaol
- mesur soned, defnydd o negyddiaeth, iaith glasur

Mae modd i ymgeiswyr ennill marciau trwy gyfeirio at nodweddion perthnasol na nodwyd yn y cynllun marcio hwn. Dylid gwobrwyo pob ateb teilwng.

Cwestiwn (b)

*Yn y gerdd 'Dau lygad ar un wlad' mae Myrddin ap Dafydd yn dangos ei safbwynt. Trafodwch y gerdd hon a'i chymharu â dwy gerdd arall, 'Cymwynaswr' o waith Ceri Wyn Jones a 'Darllen y Map yn lawn' o waith Twm Morys sy'n dangos bod ganddynt hwythau **safbwyntiau i'w mynegi yn eu cerddi**. Bydd angen i chi gyfeirio at **arddull y cerddi**.*

Sylwadau cymharol posibl:

Byddant yn cyfeirio at, 'Dau lygad ar un wlad', 'Cymwynaswr' a 'Darllen y Map yn lawn'. Mae'r elfen **gymharol** yn rhan hanfodol o ofynion y cwestiwn.

Hanes gwlad sydd wedi sbarduno Myrddin ap Dafydd hefyd, hanes Indiaid Gogledd America a dangosa ei safbwynt yn glir. Darlunio dau safbwynt gwrthgyferbyniol a wna yn ei gerdd 'Dau lygad ar un wlad' sef materoliaeth ac elw ar y naill law a cholli diwylliant, gwreiddiau ac etifeddiaeth ar y llaw arall. Ond dyma gerdd nid yn unig am Indiaid Gogledd America ond am hunaniaeth, am y berthynas unigryw rhwng gwlad a'i phobl, am y cysylltiad rhwng iaith a thir ac am bob cenedl a fu dan fygythiad erioed. Mae Myrddin ap Dafydd yn ymwybodol o'r bygythiad i'r iaith a chenedligrwydd y Cymry. Gallwn glywed adlais o Dryweryn yn y geiriau 'argae a phibelli dŵr'. Yn y gerdd 'Dau lygad ar un wlad' mae'n dwysáu ei weledigaeth ac yn proffwydo gweld dinistr '*y ddaear na ddaw'n ôl*.'

Mae Ceri Wyn Jones yn dangos ei safbwynt yn y gerdd 'Cymwynaswr'. Agwedd ac ysbryd tanllyd y tywysydd sy'n denu ac yn procio'i gydwybod. Clywed hanes gwrthryfel 1916 a wna'r bardd a diolcha i'r tywysydd yng ngharchar Kilmainham yn Nylun am agor ei lygaid i sylweddoli'r ymdrech sydd ei hangen cyn ennill annibyniaeth gwlad a'i hysbrydoli. **Hanes a brwydr gwlad** felly sydd wedi dylanwadu ar y bardd ac mae'i gydwybod yn ei boeni gan absenoldeb brwydro yn hanes cenedl y Cymry. Cofia nôl i'w wersi hanes ei hun, gwersi a oedd â phwyslais ar Brydain yn hytrach na'i wlad ei hun. Sylweddola fod cenedlaetholdeb y Gwyddelod yn llawer mwy tanbaid ac felly yn peri iddo gywilyddio pa mor fas ac annigonol yw'n teimlad ni tuag at ein gwlad.

Fel Myrddin ap Dafydd a Ceri Wyn Jones **hanes gwlad** sy'n bwysig i Twm Morys a llwydda i ddangos dyfnder ein hanes yn ei gerdd '*Darllen y Map yn lawn*'. Yn aml mae hanes lleol a hanes teulu yr un mor werthfawr â hanes cenedlaethol. Cyfarch y darllenydd a wna er mwyn ein harwain i'n hadnabod ni ein hunain ac adnabod ein cynhysgaeth. Gellir dweud bod safbwynt Twm Morys fymryn yn wahanol ac yn **llawn gobaith**. Dengys gryfder ein gwlad, bod gymaint i'w wybod a'i ddysgu. Dathlu map o Gymru a wna ac mae yma obaith i'r dyfodol gyda'r haul yn ddelwedd llawn gobaith yn disgleirio drwy'r map. Yn wir, mae 'cof cenedl' yn arwyddocaol iddo. Nid ar iaith yn unig y bydd byw cenedl. Heb wybod dim o'n hanes ni allwn symud ymlaen yn hyderus fel cenedl yn ôl Twm Morys. Dyma gerdd felly sy'n cyfleu safbwynt Twm Morys yn glir a bod angen ein harwain fel cenedl i adnabod ein gwreiddiau a'n hetifeddiaeth.

Gallant gyfeirio at ddefnydd y beirdd o fesurau ac arddull wrth gyfleu eu safbwynt.

Byddant yn cyfeirio at:

Dau lygad ar un wlad

- darlunio dau safbwynt gwrthgyferbyniol, adroddir y gerdd o safbwynt yr Indiaid brodorol
- mae'r allwedd i neges y gerdd yn y teitl oherwydd yr hyn a geir yw dwy ffordd o weld yr un peth; mae llygaid cariad a llygaid gelyn yn gweld yr un peth o bersbectif cwbl wahanol
- mae'r '*ff*' yn uniaethu gyda'r byd naturiol, gyda'r syniad o berthyn, gwerthoedd tir, diwylliant ac etifeddiaeth. Mae'r tirlun o'i gwmpas yn '*ardd*', yn '*afon fyw*'. Nid yw'r '*ti*' yn cydymdeimlo gyda harddwch naturiol yr amgylchfyd. Materoliaeth ac elw yw popeth. '*Pibelli dŵr*' yw'r '*afon*' yn ei farn ef, ac mae'r '*ddôl*' yn '*ddinas*', a'r paith yn '*wenith gwyn*'
- deïllir syniadau'r bardd ynglŷn â chariad at wlad; dychmyga'r bardd ymateb Pennaeth Seattle i'r dynion gwyn a oedd eisiau prynu ei dir; cerdd ydyw am deimlo undod â natur a thra bo'r dynion gwyn yn '*clwyed udo yn y nos*', clyw'r Indiaid '*iaith*'
- mae'r bardd yn edmygu'r Pennaeth am ei gariad at ei wlad; dyma fygythiad i nifer o wledydd gan gynnwys Cymru
- yn y clo mae'r '*ff*' yn proffwydo gweld dinistr '*y ddaear na ddaw'n ôl*'
- cyfres o wrthgyferbyniadau, personoli, defnyddio rhagenwau *ti/mi*, trosiadau, arwyddocâd '*duw*', ailadrodd

Cymwynaswr

- portread o'r tywysydd
- y bardd yn diolch i'r tywysydd yng ngharchar Kilmainham, lle aed â nifer o arweinyddion gwrthryfel Pasg 1916 i'w saethu, am agor ei lygaid i sylweddoli'r ymdrech sydd angen ei gwneud cyn ennill annibyniaeth gwlad a'i hysbrydoli
- er mai'r un llith sydd gan y tywysydd sylweddola'r bardd ei fod yn siarad o'i galon a sylwa ar ddeuoliaeth ei gymeriad
- llwydda'r tywysydd i ddod â'r gorffennol yn fyw yn y presennol i'r bardd
- ei lygaid yn dangos ei fod yn danbaid dros anghyfiawnder Iwerddon; mae ei rwystredigaeth yn glir
- 3 berf yn y clo yn arafu'r gerdd ac yn pwysleisio arwyddocâd y gymwynas, '*crynaïs. Oedais. A gwrido*' - mae geiriau'r tywysydd yn poeni cydwybod y bardd am nad ydym ni wedi sefyll mor gryf â'r Gwyddelod wrth amddiffyn ein gwlad
- oherwydd i'r tywysydd beri iddo sylweddoli hyn y gelwir y gŵr yn '*gymwynaswr*', caiff ei ysgogi felly gan berson y tu hwnt i Gymru
- defnyddio cynghanedd mewn cywydd byr, mor hawdd mae'n cynganeddu mewn cwpled fel: '*Tu ôl i'r sbectol coleg yr oedd ei lygaid yn rheg.*'

- defnyddio geiriau rhyfel sy'n ein hatgoffa am y brwydro ym 1916 megis '*o glwyfau gwlad*' ac '*yr adrodd yn ffrwydrad*', llygaid y tywysydd '*yn rheg*' wrth i'r anghyfiawnder ei gnoi, defnyddio geiriau i greu awyrgylch y lleoliad – '*yr oedd pob estyllen frau yn hanesydd hen eisiau*', gwrthgyferbyniad mewn cwpledi

Darllen y Map yn lawn

- cyfarch y darlennydd er mwyn ein harwain i'n hadnabod ni ein hunain ac adnabod ein cynhysgaeth, gwybod beth sydd wedi ein gwneud yr hyn ydym, adnabod ein gwreiddiau, ein hetifeddiaeth
- astudio map Cymru yn brofiad diddorol, enwau yn dweud llawer, rhywbeth am siâp y tirwedd, neu ddaearyddiaeth yr ardal, neu ryw chwedl neu hanes am y lle
- dathlu'r map a wna'r gerdd hon gan awgrymu i'r darlennydd beth yw'r elfennau pwysig mewn bywyd, y manau lle cafodd y bardd brofiadau arbennig a'i wreiddiau, y seintiau a'r chwedlau yn bwysig, diwydiannau ac arwyr
- mae'r holl bobl a'r llefydd hyn yn rhan o'n map ni fel Cymry, er efallai fod llawer ohonyn nhw wedi newid a diflannu erbyn hyn
- Twm Morys yn cyfleu fod map i'w gael yn y galon ac yn y meddwl
- rhigwm: mesur syml, cyfres o gwpledi odledig ac mae'r odlau yn rhwydd a naturiol iawn; mae'r symlrwydd yn addas i naws sgysiol y gerdd
- tafodiaith ogleddol, rhythm yr iaith lafar i'w glywed yn glir
- cyfres o orchmynion penodol, rhestru, cyfeiriadaeth, ailadrodd
- arwyddocâd ei neges yn llawn gobaith, mae am i bawb adnabod pob darn o wellt ym mhob cae yn ei gynefin er mwyn adnabod eu hunain a'u gwreiddiau yn well; trwy gofio hanes gwlad fe allwn ddeall y presennol a gobeithio am ddyfodol disglair llawn gobaith
- haul ar y diwedd yn ddelwedd llawn gobaith yn disgleirio drwy'r map, y pelydrau golau yma sy'n cynrychioli Cymru; mae yma obaith i'r dyfodol

Mae modd i ymgeiswyr ennill marciau trwy gyfeirio at nodweddion perthnasol na nodwyd yn y cynllun marcio hwn. Dylid gwobrwyo pob ateb teilwng.

Cynllun Marcio Cwestiwn 2 – Barddoniaeth 30 am yr ymateb ysgrifenedig a 10 am safon yr iaith a'r arddull : 40 x 2 = 80 marc.

Gradd	AA2 – Ymateb i Destun	AA2 – Ystod y Marciau (30)	AA3 – Ysgrifennu	AA3 – Ystod y Marciau (10)
A	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth drylwyr ac eang am y cerddi • crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus • cymharu a chroesgyfeirio effeithiol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd • arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau • dadansoddi a dehongli'n dda ystod o gerddi • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus • cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at gerddi penodol a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol • dadansoddi arddull yn effeithiol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd • defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn effeithiol 	24-30	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw, mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion • rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif • saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc • arddangos cyfoeth o adnoddau iaith • arddangos gafael sicr ar ramadeg a chystrawen 	8-10
B	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth fanwl am y cerddi • crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gydlynus • cymharu a chroesgyfeirio synhwyrol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd • arddangos dealltwriaeth eithaf da o'r cysyniadau • dadansoddi a dehongli'n synhwyrol ystod o gerddi • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • cyfeirio at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol yn aml • dadansoddi arddull yn foddhaol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd • defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn gyson 	20-23	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir a chroyw mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion • rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull • cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc • arddangos adnoddau iaith da • arddangos gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen 	7

C	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am y cerddi gyda manylder ar adegau • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir • cymharu a chroesgyfeirio rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd • arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau • dadansoddi a dehongli'r testun yn foddhaol • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • cyfeirio weithiau at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas • trafod agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir • defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn eithaf cyson 	15-19	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon yn glir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion • rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull • cynllunio'r gwaith yn lled ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith • gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen 	5-6
D	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y cerddi • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol • cymharu a chroesgyfeirio ychydig rhwng gweithiau'r beirdd • arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau • ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y cerddi • defnyddio ambell gyfeiriad penodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau addas yn achlysurol • trafod rhai agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir • defnyddio rhai termau gwerthfawrogi barddoniaeth 	11-14	<ul style="list-style-type: none"> • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol • dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen 	4
E	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth fras am y cerddi • cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • ceisio cymharu gwaith beirdd â'i gilydd • arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad • dangos y tueddiad i ailadrodd cynnwys • arddangos ambell enghraifft o ddatblygu syniadau personol, arwynebol • defnyddio ambell i gyfeiriad penodol at gerddi a dyfynnu'n achlysurol iawn • ceisio trafod ambell agwedd ar arddull • defnyddio ambell derm gwerthfawrogi barddoniaeth 	6-10	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau uniongyrchol a syml yn lled glir • dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen 	2-3
U	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. 	0-5	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. 	0-1

CY5

ADRAN A

Rhyddiaith yr Oesoedd Canol

- C.1 (a) Diweddarau gan ddefnyddio *Y Mabinogion* – Dafydd a Rhiannon Ifans yn ganllaw. Rhannu'r darn yn ddeg fel a ganlyn: [20 marc]
1. “Eog Llyn Lliw, fe ddeuthum i atat gyda negeswyr Arthur i ofyn a wyddost ti rywbeth am Fabon fab Modron
 2. a ddygwyd/ a gipiwyd/ a gafodd ei ddwyn yn dair noswaith/ noson oed oddi wrth/ ar ei fam.”
“Fe ddywedaf i gymaint ag a wn i.
 3. Fe af i gyda phob llanw i fyny ar hyd yr afon hyd nes y dof at dro mur (wal) Caer Loyw/ Caerloyw.
 4. Ac fe gefais i yno niwed/ loes/ anaf/ dolur na chefais erioed ei gymaint, (na chefais i yn f'oes)
 5. ac fel y credoch/ fel y credwch/ fel y byddwch yn credu/ fel y byddech yn credu/ fel eich bod yn credu/ er mwyn i chi gredu, doed/ deued un ohonoch/ byddech i un ohonoch ddod yma ar fy nwy ysgwydd.”
 6. (A'r) Y sawl a aeth/ Dyma rai a aeth/ Dyma rai aeth ar ddwy ysgwydd yr Eog oedd Cai a Gwrhwr Gwalstawd leithoedd. Fe deithiasant/ fe wnaethon nhw deithio/ aethant hyd oni ddaethant/ (hyd) nes daethant am y mur (yr ochor arall i'r wal i'r) â'r carcharor,
 7. hyd oni chlywent am y mur (yr ochor arall i'r wal) â hwy gwynfan a griddfan. Dywedodd Gwrhwr, “Pa ddyn sy'n cwyno yn y tŷ carreg/ cerrig hwn?”
 8. “O! Wŷr, y mae gan y sawl sydd yma le/ achos i gwyno. Mabon fab Modron sydd yma yng ngharchar/ yn y carchar,
 9. ac ni charcharwyd neb mewn modd mor boenus/ drwg/ poenus/ erchyll/ gwael/ cas/ tost mewn carchar â/ na mi/ fi, na charchariad Lludd Llaw Eirint na charchariad Graid fab Eri.”
 10. “Oes gobaith gennyf ti gael dy ryddhau (dy ollwng yn rhydd) naill ai er (yn gyfnewid am) aur neu er (yn gyfnewid am) arian, neu er (yn gyfnewid am) (g)olud/ cyfoeth y byd presennol/ hwn neu er (yn gyfnewid am) (f) brwydr ac ymladd?”

Dyfernir 20 marc am yr ateb ac asesir AA2 ac AA3.
10 marc ymateb i destun + 10 marc iaith = 20 marc

Gradd	AA2 – Ymateb i destun	AA2 Ystod marciau (10)	AA3 – Defnydd iaith ysgrifenedig	AA3 Ystod marciau (10)
A	<ul style="list-style-type: none"> • Arddangos gwybodaeth drylwyr am y testun • Llwyddo i ddiweddarau'r eirfa a'r gystrawen lle bo angen 	8-10	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif • Arddangos cyfoeth o adnoddau iaith • Meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen 	8-10
B	<ul style="list-style-type: none"> • Arddangos gwybodaeth fanwl am y testun • Llwyddo i ddiweddarau'r eirfa a llawer o'r cystrawennau 	6-7	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull • Arddangos adnoddau iaith da • Arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen 	6-7
C	<ul style="list-style-type: none"> • Arddangos gwybodaeth fanwl am y testun ar adegau • Llwyddo i ddiweddarau, lle bo angen yr eirfa, a rhai cystrawennau, er bod peth ansicrwydd i'w ganfod 	5	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull • Arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith • Gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen 	5
D	<ul style="list-style-type: none"> • Arddangos peth gwybodaeth am y testun • Llwyddo i ddiweddarau'r eirfa a'r ymadroddion 	3-4	<ul style="list-style-type: none"> • Dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • Arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith • Arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen 	3-4
E	<ul style="list-style-type: none"> • Arddangos gwybodaeth arwynebol am y testun • Llwyddo i ddiweddarau'r eirfa 	2	<ul style="list-style-type: none"> • Dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • Defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • Arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen 	2
U	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol gradd E ar adegau yn unig. 	0-1	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol gradd E ar adegau yn unig. 	0-1

C.1 (b) Manylwch ar y themâu a geir yn y darn cyfan isod.

[20 marc]

Disgwyli'r ymgeiswyr allu esbonio themâu sy'n berthnasol i'r darn megis:

Rhyddhau carcharorion. – Y cyfarwydd hwn yn gwybod am fotiffau llên gwerin. Ceir manylion am yr ymgyngori â'r Anifeiliaid Hynaf cyn y disgrifiad byw o hanes rhyddhau'r arwr o garchar Caerloyw. Mae'r stori hon yn perthyn i ddsbarth enwog o straeon cydwladol am waredigaeth carcharorion. Stori annibynnol oedd **Chwedl yr Anifeiliaid Hynaf** yn wreiddiol ond fe'i defnyddiwyd yma er mwyn esbonio sut y daeth milwyr Arthur o hyd i Fabon. Ceir y stori hefyd yn hen lenyddiaeth India ac fe gafodd ei chorffori yn y chwedl hon ac mewn straeon yn Iwerddon a'r Alban.

Chwech yn mynd trwy'r Byd – Prif thema'r chwedl hon. Chwech o gynorthwywyr a chyneddfau rhyfeddol ganddynt. Motiff gwerin cyffredin yw cael arwr sydd yn ceisio merch y brenin yn wraig iddo. Gwna hynny gyda chymorth 6 o gynorthwywyr talentog. Yr enghraifft fwyaf adnabyddus yn y chwedlau Groegaidd yw chwedl Jason a'r Argonotiaid o wlad Groeg. Gyda chymorth cynorthwywyr mae Jason yn dod o hyd i'r Cnu Aur, fel mae Culhwch yn cael help y chwech i gael Olwen.

Kenneth Jackson a Rachel Bromwich yn anghytuno ynghylch pwy oedd y cynorthwywyr gwreiddiol ond yma ceir:

1. **Gwrhyr Gwalstawd leithoedd** – ieithydd
2. **Cai** – dal ei anadl
3. Bedwyr – hardd a chyflym
4. Cynddylig Gyfarwydd – ffeindio'r ffordd
5. Gwalchmai – cerddwr a marchog gorau
6. Menw fab Teirgwaedd – dewin

Themâu Arthuraidd – Cyfeiriad yma ato fel, person o gig a gwaed. Yma y ceir y cofnod chwedlonol cyntaf am Arthur mewn unrhyw iaith. Er iddo gael ei ystyried yn berson hanesyddol – 5/6 G, erbyn cyfnod Culhwch ac Olwen, yr hanesion amdano'n lledaenu. Dylanwad *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy. Yma mae'n cael ei ystyried yn arwr ac yn gymeriad lliwgar, yn cynorthwyo'n bersonol i gyflawni'r anoethau. Gwyddom oddi wrth y chwedl hefyd ei fod yn gefnder i Gulhwch o ochor ei fam. Erbyn y chwedlau diweddaraf fe newidiodd ei gymeriad ac mae'n ymddangos yn falch a thrahaus.

Gradd	AA2 – Ymateb i destun
A 16-20	<ul style="list-style-type: none"> • Manylu ar y themâu yn ddeallus, yn glir a diamwys a dangos eu harwyddocâd • Crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig • Arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus • Defnyddio dyfyniadau'n effeithiol
B 12-15	<ul style="list-style-type: none"> • Manylu ar y themâu yn eithaf deallus a dangos eu harwyddocâd • Crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus • Arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • Defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol
C 10-11	<ul style="list-style-type: none"> • Manylu ar y themâu, eu cyflwyno'n briodol a dangos eu bod wedi eu deall • Crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir • Arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • Defnyddio dyfyniadau addas
D 6-9	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod y themâu, gan ddangos eu bod wedi eu deall • Crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir • Arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau • Defnyddio dyfyniadau
E 4-5	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod o leiaf 1 thema gan ddangos eu bod wedi ei deall • Arddangos gwybodaeth am gynnwys y testun a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • Ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun • Datblygu ac ehangu ar rai syniadau wrth gyfeirio at wahanol destunau • Dyfynnu'n achlysurol
U 0-3	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig.

ADRAN B

C.2 Yr Hengerdd a'r Cywyddau

Dyfernir y marciau fel a ganlyn:

- (a) cefndir y bardd a'r gerdd = 15 marc
- (b) arddull y dyfyniad = 15 marc

Defnyddio iaith ysgrifenedig 10 marc
Asesir AA2 ac AA3 yn y cwestiwn hwn.

Cyfanswm = 40 marc

Dylent drafod **cefndir** y gerdd nid ei chyd-destun. Dylent drafod cefndir arwrol barddoniaeth y cyfnod. Dylent berthnasu'r cefndir i'r dyfyniad dan sylw a chwilio am dystiolaeth o'r dyfyniad i gadarnhau a goleuo'u hatebion. Os digwydd iddynt sôn am Aneirin yn hytrach na Taliesin rhaid i'r ffeithiau fod yn berthnasol i Taliesin cyn y gallant ennill marciau. Dylai ymgeiswyr geisio cynnwys yr elfennau canlynol yn eu hatebion:

- (i) hanesyddol – sôn am Urien, Owain ap Urien, Fflamddwyn
- (ii) daearyddol – manylu ar yr Hen Ogledd – Rheged a Brynaich a'u lleoliad
- (iii) cymdeithasol – gallant gyfeirio at nodweddion y traddodiad arwrol – ffyrnigrwydd ar faes y gad a haelioni yn y llys. Cyfeirio at swyddogaeth y bardd yn y gymdeithas.

- Urien a'i fab Owain yn frenhinoedd ar deyrnas Rheged yng ngorllewin yr Hen Ogledd. Mae'r Hen Ogledd yn derm hwylus a ddefnyddir i gyfeirio at y darnau hynny o Dde'r Alban a Gogledd Lloegr a oedd gynt ym meddiant y Cymry (a'u cyn-deidiau, y Brythoniaid).
- Yr oedd teyrnasoedd Cymreig pwysig eraill yn yr Hen Ogledd. Yr oedd Urien yn byw yn ail hanner y 6ed ganrif. Yn y 5-7 ganrif roedd y teyrnasoedd hyn yn ymladd am eu bywydau oherwydd roedd yr Eingl-Sacsoniaid yn ymosod arnynt. Roedd gan bob teyrnas ei brenin a'i byddin ei hun.
- Mae arwriaeth yn holl bwysig. Erbyn 638 roedd y tiriogaethau Cymreig ym meddiant y Saeson. Dim ond Ystrad Clud lwyddodd i oroesi fel teyrnas annibynnol, a hynny tan yr 11eg ganrif. Yr ymgiprys hwn am dir yw cefndir cerddi Taliesin.
- Bardd neu bencerdd y Brenin oedd Taliesin. Mae nifer o'i gerddi'n disgrifio dewrder Urien a'i fab Owain mewn brwydrau. Hefyd marwnad i Owain. Mae awgrym iddo ddigio Urien unwaith wrth ganu i fardd arall o Bowys.
- Swydd Taliesin oedd canu mawl i Urien – ei ddisgrifio fel brenin dewr mewn brwydr a hael i'w bobl h.y. moli delfryd o arweinydd, ond ceir gwedd fwy personol yn ei waith.
- Clodfori'r meirw am eu dewrder a chofnodi'r hyn a ddigwyddodd oedd swydd y bardd. Roedd y bardd yn rhoi anfarwoldeb i ryfelwyr. Dyma gerdd i fab y brenin Urien, a'r brenin ei hun erbyn amser canu'r gerdd hon yn ôl pob tebyg, wedi marw ac yn cael ei orchymyn i ofal Duw. Hyn yn dangos fod y teyrnasoedd hyn yn arddel Cristnogaeth.
- Datblygodd chwedloniaeth o gwmpas enw Taliesin ar ôl ei farwolaeth – erbyn y 9fed ganrif, daethpwyd i edrych arno fel bardd hollwybodus, yn ddewin.

Gradd	AA2 – Ymateb i destun
A 12-15	<ul style="list-style-type: none"> • Crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol am gefndir y gerdd a chefndir y bardd, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig • Arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus • Defnyddio dyfyniadau'n effeithiol
B 10-11	<ul style="list-style-type: none"> • Crynhoi ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus • Arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • Defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol
C 8-9	<ul style="list-style-type: none"> • Crynhoi'r ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir • Arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • Defnyddio dyfyniadau addas
D 5-7	<ul style="list-style-type: none"> • Crynhoi rhai ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd a'u cyflwyno'n gywir • Arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau • Defnyddio dyfyniadau
E 3-4	<ul style="list-style-type: none"> • Arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • Ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun • Datblygu ac ehangu ar rai syniadau wrth gyfeirio at wahanol destunau • Dyfynnu'n achlysurol
U 0-2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig.

Arddull y bardd

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu cyfeirio at rai o'r nodweddion hyn a manylu ar eu heffeithiolrwydd:

- 'Awdl fer, ond cerdd fawr' yn ôl GT
- mesur awdl-gywydd gyda'r brifodl – aid yn cael ei chynnal trwy gydol y gerdd
- y llinell fydryddol yn cynnwys dwy o'r 'llinellau' yn y gerdd ac yn ogystal â'r brifodl, mae diwedd pob hanner llinell yn odli â gair ynghanol ail hanner y llinell – Urien / Rên (odl gyrch)
- odl fewnol (udd...cudd; cnud ...dylud)
- cyflythrennu cyfoethog
- cytseinedd – (rhain yn sail i'r gynghanedd)
- chwarae ar sŵn ac ystyron geiriau e.e. gwawr/gwaywawr; haeach/hyach
- cymeriad geiriol
- cyffelybiaeth - disgrifio Owain yn cosbi'r gelyn 'mal cnud yn dylud defaid' a'r cyflythreniad a'r odl yn ychwanegu at y dweud
- trosiad – 'Medel gâlon – clodfori'r rhyfelwr
- dethol manylion – e.e. 'Cysgid Lloegr... llygaid' – a'r gyseinedd yn atgyfnerthu'r lladd brawychus. Y chwarae ar y syniad o 'gysgu' yn cysylltu'r ddau ddarlun gwrthgyferbyniol eu naws
- lleihâd – 'nid oedd fas i gywyddaid'
- ansoddair cyfansawdd a dyfalu'r bedd – 'tromlas'
- undod – ailadrodd 'Enaid Owain ab Urien'
- Presennol dramatig – 'cysgaid Lloegr llydan'
- Geirfa o fyd milwrol

Gradd	AA2 – Ymateb i destun
A 12-15	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi'n dreiddgar y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth • Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus • Defnyddio dyfyniadau'n effeithiol
B 10-11	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi'n effeithiol y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth • Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • Defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol
C 8-9	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi'n foddhaol y nodweddion a'r technegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth • Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • Defnyddio dyfyniadau addas
D 5-7	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth • Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau • Defnyddio dyfyniadau
E 3-4	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull wrth geisio'u dadansoddi • Datblygu ac ehangu ar rai syniadau • Dyfynnu'n achlysurol
U 0-2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig.

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol. (10)

Gradd	AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig
A 8-10	<ul style="list-style-type: none"> • Mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir ac yn groyw • Saerño gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc • Arddangos cyfoeth o adnoddau iaith • Meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen
B 6-7	<ul style="list-style-type: none"> • Mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir ac yn groyw • Saerño gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc • Arddangos adnoddau iaith da • Arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen
C 5	<ul style="list-style-type: none"> • Mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir • Cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc • Arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith • Gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen
D 3-4	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon • Dangos ymwybyddiaeth am drefn a dilyniant wrth gyflwyno gwaith • Arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith • Arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen
E 2	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac effeithiol • Dangos peth ymwybyddiaeth am drefn wrth gyflwyno gwaith • Defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas
U 0-1	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig.

Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.

Adran A

Gwerthfawrogi Barddoniaeth

Cwestiwn 1

- Mae pob un ohonom mewn rhyw fodd neu'i gilydd yn gyfarwydd â gweld dirywiad o ryw fath mewn lle arbennig, felly mae'r disgrifiad a gawn o'r 'lle' yn y gerdd hon yn gyfarwydd i ni i gyd. Nid yw Myrddin ap Dafydd yn enwi'r lle sy'n caniatáu i bob un ohonon ni feddwl am ein lle ein hunain. Gall fod yn dref ddiwydiannol.
- Mae'r ddau bennill cyntaf yn cyfleu diflastod a llwydni'r lle. Er ei bod hi'n haf yn y gerdd does dim bywyd yma, does dim byd yn digwydd ac o'r herwydd does dim llawer o obaith a goleuni yn gysylltiedig â'r lle arbennig hwn. Mae'r llwyfan fel petai'n wag.
- Defnyddir **ansoddeiriau** penodol – '*llwm*', '*lliw lludw*', '*cwmwl du*' i gyfleu'r negyddiaeth sydd ynghlwm â'r lle. Ceir pwyslais ar **liwiau a diffyg golau** i gyfleu awyrgylch y dref. **Ailadroddir** y gair '*lle*' i bwrpas:

*'... lle i ddal annwyd,
lle heb hiwmor ben bore -'*

Gall y '*dilladau lliw lludw*' awgrymu'r math o drigolion sy'n byw yma – pobl hŷn sy'n gyndyn i fynd allan yn y nos a dyna pam:

*'Bob nos, mae fel 'tae'n bnawn lau
y cau cynnar;'*

sy'n cyfleu fod pob man yn dawel fel y bedd.

Mae'r **trosiad** o

*'..... bar y Bwl
yn geg gam, gyda'i gwmwl
du ar tap,'*

yn cyfleu nad oes cyffro yma, hyd yn oed yn y dafarn. Does dim yn digwydd ar y llwyfan a cheir **cynganedd sain** '*aeth pob hiwmor heibio'r dre*' yn effeithiol i bwysleisio'r ystyr. Mae fel petai popeth da yn osgoi'r lle yma â'r awgrym fod yna ffordd osgoi wedi ei hadeiladu ar y cyrion:

*'aeth pob hiwmor heibio'r dre
a'i chwarddiad, mond eiliad oedd –
un eiliad cyn cau'r niwloedd.'*

- Ar ôl cyfleu'r diflastod mae'r bardd yn dechrau ei drydydd pennill gyda'r gair '*Ond*'. Mae bywyd yn dychwelyd unwaith eto ac mae hyn yn cyfleu bod newid agwedd yn digwydd, a bod Myrddin ap Dafydd yn dechrau gweld pethau fymryn yn wahanol;

'*Ond trwy wyll y theatr hon,*' mae'r **ferf** 'daw' yn cyfleu pelydryn o obaith yn dod fel:

... '*haul yn ffrwd o rywle
ac mae'n hollti llwydni'r lle*'.

Mae'r **berfenw** 'hollti' yn cyfleu'r haul a'i belydrau yn brwydro eu ffordd drwy'r cymylau ac eto defnyddir **cynghanedd** sain yn effeithiol i gyfleu'r ystyr; '*ac mae'n hollti llwydni'r lle*'. Hyn fel petai'n awgrymu bod llenni'r llwyfan yn cael eu hagog. Mae'r theatr a'i '*waliau moelion*' nawr yn edrych yn wahanol ac yn fwy gobeithiol. Mae yna **gyferbynnu** priodol o ran **lliwiau** ac mae'r **naws** yn newid ac ysgafnder o ran y **gynghanedd**. Mae fel petai ysbryd y lle wedi newid:

'*a lliw siriol llai seriws
i daro winc ar bob drws.
Tinc cloch y siop: mae popeth
yn dod i'w oed wedi heth*'

Mae fel petai'r lle ei hun yn dathlu dyfodiad yr haul ac yn cynnig llwnc destun, wrth i'r ffenestri sgleinio ac

'*estyn
ei gwydrau i'r golau gwyn.*'

- Yn y pedwerydd pennill mae'r bardd yn egluro pam mae yna reswm i ddathlu. Mae yna bobl ifanc yma yn y dref:

'*r cwm.....
daw huddug o do heddiw
ar fws ysgol....*'

Defnyddir **trosiad** i ddisgrifio'r genhedlaeth nesaf sef '*huddug*'. Caiff huddug ei ffurfio mewn simdde wrth i fflamau tân losgi. Gall yr huddug gyfeirio at yr **ymadrodd** fel *huddug i botes* sy'n cyfleu newid sydyn, dirybudd. Byddai modd cyfeirio at lymder a thlodi'r ardal fel yn y rhan gyntaf a bod y bobl ifanc yn dod â'u lolian yn 'frwsh glân'.

'*eu lolian
o wal i wal yn frwsh glân,*

Mae ganddynt ddiwylliant gwahanol ac maent yn mwynhau:

'*dawns o dân yn eu CD
a ffeit yn eu graffiti.*'

Dyna yw eu diwylliant, cerddoriaeth a graffiti. Drwy lunio graffiti boed yn ddarluniau neu ysgrifen maen nhw'n mynegi eu hunain ac mae'r **gynghanedd** yn cyfleu hynny, '*a ffeit yn eu graffiti*'.

- Mae dwy linell olaf y gerdd yn obeithiol iawn:

*'Mae yma wrid; mae rhyw wib
eisoes. Mae pethau'n bosib ...'*

Mae **ailadrodd** y **ferf** 'mae' yn cadarnhau'r bywyd ac yn cadarnhau'r gobaith. Mae 'gwridd' yn arwydd o fywyd ac mae 'gwridd' erbyn hyn yn y lle arbennig hwn. Mae'r lle fel petai rhwng dau gyfnod ond mae angen treulio amser yn gwerthfawrogi beth sydd o dan yr wyneb. Tra bo pobl ifanc yn parhau i gael eu magu yno mae unrhyw beth yn bosibl. Mae yna ddyfodol felly i'r lle a bydd y ddrama yn parhau.

- **Delwedd ganolog** y gerdd yw byd y theatr ac mae llinell gyntaf y gerdd yn cyflwyno'r ddelwedd i ni - *'Mor llwm yw dramâu'r lle 'ma'*. Yn ystod y gerdd mae'r llwyfan yn cael ei osod a cheir geiriau sy'n gysylltiedig â byd y theatr: *'a'r adar to i gyd yn aros Godo.'* sy'n adlais o deitl y ddrama *'Wrth Aros Godof'*.

Defnyddir yr **enw** *'llenni'* yn yr ail bennill gyda'r syniad fod y llenni llwyd yn cuddio'r lle ac yn rhwystro bywyd. Ceir cyfeiriadau at eiriau unigol megis *'chwarddiad'* a *'hiwmor'*, geiriau sy'n gysylltiedig â mwynhau perfformiad llwyfan. Eto does dim perfformiad i'w fwynhau ar y llwyfan hwn.

Yn y trydydd pennill rydym yn dychwelyd i'r theatr sy'n adeilad moel ond y tro hwn mae ffenestri'r lle yn estyn *'eu gwydrau i'r golau gwyn'* gyda'r cyfeiriad at y *'golau gwyn'* yn cyfeirio at y sbotleit ar y llwyfan. Dyna gyfleu'r gobaith. Mae'r *'ciw'* ar ddechrau'r pedwerydd pennill hefyd yn cyfeirio at y *'ciw'* gaiff actorion mewn perfformiad pe baent yn digwydd anghofio eu geiriau. Bydd pawb yn dechrau gwneud ei ran ar y llwyfan unwaith eto.

Synoptig

Gellir cydio mewn agweddau o ran themâu megis:

- **Dirywiad mewn ardal/tref arbennig**
- **Gobaith yn ail ran y cywydd**

Gradd	AA2	AA2 - ystod y marciau (40)	AA3	AA3 - ystod y marciau (20)
A	<ul style="list-style-type: none"> crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau dadansoddi a dehongli'n dreiddgar datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at rannau penodol o'r testun a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn dreiddgar defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn ddeallus croesgyfeirio'n ddeallus rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull 	<p>32-40</p> <p>(<i>Synoptig 8-10</i>)</p>	<ul style="list-style-type: none"> mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc arddangos cyfoeth o adnoddau iaith meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen 	16-20
B	<ul style="list-style-type: none"> crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau dadansoddi a dehongli'n dda datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus cyfeirio at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn addas a phwrpasol defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn effeithiol croesgyfeirio effeithiol rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull 	<p>26-31</p> <p>(<i>Synoptig-7</i>)</p>	<ul style="list-style-type: none"> mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull saernïo'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc arddangos adnoddau iaith da arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen 	13-15
C	<ul style="list-style-type: none"> crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau dadansoddi ac ymresymu'n foddhaol datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus cyfeirio weithiau at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau addas dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn foddhaol defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn gyson croesgyfeirio'n synhwyrol rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a rhai technegau arddull 	<p>20-25</p> <p>(<i>Synoptig 5-6</i>)</p>	<ul style="list-style-type: none"> mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen 	10-12

D	<ul style="list-style-type: none"> • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir • arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau • dadansoddi ac ymresymu'n lled foddhaol • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau • defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun a defnyddio rhai dyfyniadau addas • trafod agweddau ar arddull a ffurf/mesur • defnyddio rhai termau gwerthfawrogi llenyddiaeth • ychydig o groesgyfeirio rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu ac ambell dechneg arddull 	14-19 (<i>Synoptig - 4</i>)	<ul style="list-style-type: none"> • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon • dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith • arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen 	7-9
E	<ul style="list-style-type: none"> • cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad • ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol • datblygu ac ehangu ar rai syniadau • defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun ac ambell ddyfyniad • trafod rhai agweddau ar arddull a ffurf/mesur • defnyddio ambell derm gwerthfawrogi llenyddiaeth • creu ambell gymhariaeth rhwng gwahanol destunau 	8-13 (<i>Synoptig 2-3</i>)	<ul style="list-style-type: none"> • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac yn effeithiol • dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen 	4-6
U	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. 	0-7 (<i>Synoptig – 1</i>)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. 	0-3

***Wrth ddyfarnu marciau i AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau/tri phwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf. Rhaid i'r marc iaith fod o fewn un radd i'r marc cynnwys.**

Rhoddir canllaw ar gyfer dyfarnu marciau am yr elfen synoptig o fewn amcan asesu - Ymateb i destun (AA2) mewn print italig yn y golofn farciau.

Cwestiwn 2 – Defnyddio'r iaith – 50 marc

Llunio darn o ryddiaith personol a dychmygus ar bwnc arbennig.

Gan mai o dan adran defnyddio'r iaith y daw'r cwestiwn hwn, dylid rhoi lle blaenllaw i ansawdd, mynegiant ac arddull wrth asesu.

Gradd	AA3 - ysgrifennu	AA3 - ystod marciau
A	<ul style="list-style-type: none">cyflwyno gwaith llawn dychymyg a gwreiddioldebdewis a dethol yn feistrolgar yr elfennau arwyddocaol yn y digwydd a'r profiadsaernïo'r gwaith yn fwriadus gan sicrhau undod i'r gwaitharddangos cyfoeth o adnoddau iaithmeistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen	40-50
B	<ul style="list-style-type: none">cyflwyno gwaith llawn dychymyg a pheth gwreiddioldebdangos ôl dewis a dethol yr elfennau arwyddocaol yn y digwydd a'r profiadsaernïo'r gwaith yn ofalus gan sicrhau undod i'r gwaitharddangos adnoddau iaith daarddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen	32-39
C	<ul style="list-style-type: none">cyflwyno gwaith dychmygus a diddorolllwyddo i ddewis a dethol y perthnasol yn eithaf dacynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn ceisio sicrhau undod i'r gwaitharddangos amrywiaeth o adnoddau iaithgafael gadarn ar ramadeg a chystrawen	25-31
D	<ul style="list-style-type: none">creu darluniau personol diddorol a digwyddiadau cyffrousllwyddo i ddewis a dethol y perthnasol ar y cyfanarddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaitharddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen	17-24
E	<ul style="list-style-type: none">creu disgrifiadau personol ac ambell ddigwyddiad diddoroldefnyddio ystod o eirfa a phatrymau addasarddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen	10-16
U	<ul style="list-style-type: none">Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig.	0-9

Cwestiwn 3 - Tasg cyfieithu - 50 marc

Rhai nodiadau ar y cyfieithu

Rhennir y darn yn ddeg adran hylaw a dosberthir 4 marc i bob adran.

Tynnir $\frac{1}{2}$ marc am bob gwall hyd at 5 gwall.

6 gwall neu fwy - rhaid penderfynu ar ansawdd y frawddeg i benderfynu a ddyfernir 1 marc / $\frac{1}{2}$ marc neu 0.

Ar ôl marcio drwy ddilyn y cynllun hwn bydd gennych gyfanswm allan o 40 marc.

Dylech gyfeirio wedyn yn ôl at y disgrifiadau gradd er mwyn rhoi marc argraff allan o 10 marc.

Dylech sicrhau fod y marc argraff yn adlewyrchu gofynion graddau penodol. Mae hyn yn gyfle i wobrwyo defnyddio ymadroddion Cymraeg a chyfoethog yn feistrolgar, naturioldeb o ran llif y mynegiant a chyfieithu isgymalau yn effeithiol.

Cosbir cyfieithu priod-ddulliau a chystrawennau Saesneg. Bydd angen i ffurfiau'r brawddegau fod yn gwbl Gymraeg. Derbynnir ffurfiau cryno a chwmpasog berfau – y cwmpasog yn dderbyniol ar lafar.

Cyfanswm allan o 40 marc + marc argraff allan o 10 = cyfanswm am y cwestiwn.

32-40	9-10
26-31	7-8
20-25	5-6
14-19	3-4
8-13	1-2
0-7	0

Gradd	AA3 - ysgrifennu	AA3 - ystod marciau
A	<ul style="list-style-type: none"> • cyfieithu'n feistrolgar ddarn ffeithiol yn fanwl gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn feistrolgar • arddangos cyfoeth o adnoddau iaith • arddangos gafael sicr ar ramadeg a chystrawen 	40-50
B	<ul style="list-style-type: none"> • cyfieithu'n briodol ddarn ffeithiol yn fanwl gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn briodol • arddangos adnoddau iaith da • arddangos gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen 	32-39
C	<ul style="list-style-type: none"> • cyfieithu'n effeithiol ar y cyfan ddarn ffeithiol yn gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn effeithiol ar y cyfan • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith • gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen 	25-31
D	<ul style="list-style-type: none"> • cyfieithu'n foddhaol ar y cyfan ddarn ffeithiol yn gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn foddhaol ar y cyfan • arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith • arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen 	17-24
E	<ul style="list-style-type: none"> • cyfieithu'n foddhaol rannau o ddarn ffeithiol yn lled gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn foddhaol mewn rhannau ohono • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen 	10-16
U	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. 	0-9



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk